

## Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw ag Eirwen Bailey (Llansannan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion cynhesaf at Maldwyn Jones (Cefn Berain) sydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Parhawn i gofio hefyd am Bob Davies (Llanfair) yn Ysbyty Llandudno, ond mae'n dda cael adrodd fod Elwy Evans (Tanyfron) wedi dod adref o'r ysbyty erbyn hyn. Anfonwn ein cofion at y tri, a phawb arall sydd heb fod cystal eu hiechyd ar hyn o bryd. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal ac yn eu hiachau.
- Anfonwn ein cofion hefyd at ffrindiau sydd yn parhau mewn cartrefi gofal – Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); Miss W J Roberts a Mrs Menna Owen (Yr Hen Ddeondy); a Mrs Elizabeth Hughes (Richmond House), a diolchwn am y gofal y maent yn ei dderbyn yno.
- Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ivor Roberts (Henllan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig dydd Mercher nesaf!

## Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i'r newyddion da am Grist, dathlu Ei bresenoldeb a gwasanaethu mewn ffordd gyfoes a pherthnasol.

### \*\* Llety \*\*

Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd eisoes wedi cynnig llety i rai o aelodau Côr Synod, Mizoram ond rydym yn dal yn brin o lety ar gyfer ychydig ohonynt. Gofynnwn eto yn garedig i **unrhyw un o'r Ofalaeth** all gynnig llety (gwely a brecwast) i gysylltu â Bet Jones (Cefn Meiriadog) ar fyrder, os gwelwch yn dda: (01745) 584349 / jones\_beti@yahoo.co.uk. Byddem yn ddiolchgar o lety am naill ai un, dwy neu dair noson (Gorffennaf 11, 12, 13), a hynny ar gyfer un, dau neu fwy o bobl. Bydd angen llety fel a ganlyn: Nos Wener = 8.00 yr hwyr tan tua 10.00 bore Sadwrn. Yna, yn hwyr nos Sadwrn (ar ôl cystadleuaeth Côr y Byd yn Llangollen) tan tua 10.00 bore Sul; ac yna ar ôl yr oedfa nos Sul tan tua 9.00 bore Llun pryd y byddant yn gadael i ddal y trê'n yng Nghaer. Byddai eich lletygarwch yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Diolch.

### I ddod

- **CWRS IEUENCTID (12-15 OED)** yng Ngholeg y Bala Gorffennaf 28ain – Awst 1af. Cysylltwch â'r coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565). Bydd gostyngiad o £20 i bob un o'r Ofalaeth fydd yn mynychu'r cwrs.

## Darlleniad Wythnos Nesaf

Hebraid 1: 1-4 (BCND tud.239 / BCN: tud.220)

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6<sup>ed</sup> Gorffennaf 2014

## Darlleniad y Dydd

Jeremeia 18: 1-10

(BCND tud.703 / BCN: tud.641)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) / [www.thaglendorcas.com](http://www.thaglendorcas.com) / [www.llanw.org](http://www.llanw.org) / [www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Dwi wedi cael sawl cyngor at boen cefn dros yr wythnosau diwethaf a sawl un yn cydymdeimlo hefo fi! Mae'n syndod faint o boen cefn sydd 'na yn y byd! Gobeithio y caf faddeuant gan bawb arall, a'r rhai sy'n fwy gwyddonol feddygol yn eich mysg, ond Selwyn, Egryn sy'n mynd â hi gan iddo ymddangos nos Sul wedi'r oedfa fendithiol yn y Waen, Nantglyn hefo hanner potel o olew Morris Evans, wedi ei phrynu, medde fo, yn swyddogol yn Rhuthun yn rhywle! Ar label y botel y mae'n dweud "Olew Gwynnau, iachusol ac esmwythol" felly dyma Gwglo a dod ar draws y cofnod yma o hysbyseb i'r hylif gwyrthiol a ymddangosodd yn 1938:

"FIRST AID."

*Cedwch botel wrth law yn hwylus!*

*Angenrhaid yw Olew Teuluaid Morris Evans, lle bynnag y mae, neu y dichon, fod damweiniau bychan atgas yn digwydd – a'r cyfryw le yw'r cartref, gan nad pa mor drefnus y byddo. Rhy lluosog i'w henwi yw'r achlysuron lle gellir ei defnyddio, gan fod pob dydd yn rhoi prawf o'i rinwedd mewn rhyw gyfeiriad newydd.*

*Cedwch botel yn hwylus wrth law erbyn y galw sy'n sicr o ddigwydd.*

*Digymar at Doriadau, Briwiau, Llosg Tân, neu Ddŵr, Dwylaw'n torri, Llosg Eira.*

*Os am lwyr wella y Cryd-cymalau, neu Boen Cefn, ewch ar unwaith at eich*

*Fferylllydd am Botel o OLEW Morris Evans, a blwch o'r Pearls,*

*Prisiau, 1/3 a 3/- y botel.*

*MORRIS EVANS A'I GWMNI, FESTINIOG, N.W. - Neu gan eich Fferylllydd lleol!*

Diddorol yw'r honiad mai "rhy lluosog i'w henwi yw'r achlysuron lle gellir ei ddefnyddio" a'r cyfeiriad at y realiti sy'n helpu gwerthu pob ffigis ac yswiriant: "erbyn y galw sy'n sicr o ddigwydd"!

Feiddiwn i ddim honni fel y gwna'r hysbyseb am rinweddau unrhyw eli na ffigis ond mi fedraf ddweud gydag argyhoeddiad fod yn y Beibl gyfeiriad at "falm yn Gilead" yr ymholodd Jeremeia amdano (Jeremeia 8: 32) a CFF 846. A'r balm hefyd sydd yn wirioneddol effeithiol at bob clwy sef y balm a ddaeth o glwyfau Iesu ar y groes. 'Caed balm o archoll ddofn y bicell fain' meddai Pedr Fardd (CFF 524) "Trwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachad" meddai Eseia (Eseia 53 :5).

Diolch i Sel am y ffigis ac am gael teimlo'n well ond canmil diolch i'r Arglwydd am gael profi o rin y balm hwn sydd gan Iesu at bob achlysur, at bob peth sy'n sicr o ddigwydd a "gan fod pob dydd yn rhoi prawf o'i rinwedd mewn rhyw gyfeiriad newydd". A thrwy ffydd y mae hwn yn gweithio hefyd!!

*Aneurin*

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss a bydd Rhodri yn pregethu.
- Sadwrn • **Diwrnod Arbennig i Flaenoriaid** yng Nghapel Tegid, Y Bala (10.30 – 3.30). Rhoddir sylw yno i addoli ac i waith blaenor, a bydd sgwrs “Pam dathlu? Pam Cofio?” gan Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth a ninnau eleni yn dathlu 300 mlwyddiant geni Howell Harris ac yn cofio 200 mlwyddiant geni Thomas Charles. Darperir cinio gan arlwywyr allanol ac felly rhowch eich enw i Mair **HEDDIW** (dydd Sul, Gorffennaf 6ed), os gwelwch yn dda.

Sul nesaf

## i-Grist am 10:30

Oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth, yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni

### Côr Synod, Mizoram

Yn ystod y gwasanaeth, bydd y plant a'r oedolion yn cyflwyno'r gwaith llafar, ac yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i'r cae chwarae i gael barbeciw ac i gymdeithasu. (*Os na fydd y tywydd yn ffafriol, mae trefniadau wedi eu gwneud i gael y barbeciw yn y Ganolfan yn Llansannan.*) Dewch â chig (neu beth bynnag ddymunwch ei goginio ar y barbeciw) a bara hefo chi, os gwelwch yn dda.

**Cyflwyniadau:** Os oes cyflwyniadau creadigol i gyd-fynd efo'r gwaith llafar, bydd Mair yn falch o glywed gennych erbyn dydd Mercher.

**Parcio:** Er diogelwch, gofynnwn i chi beidio parcio o flaen y capel, ond bydd digonedd o le parcio naill ai ym maes parcio'r capel, ym maes parcio'r Ganolfan neu ar ochr y ffordd yn arwain at y Ganolfan.

**Cadair Olwyn:** Mae cadair olwyn yn y capel i ddefnydd pwy bydd bynnag fydd ei hangen.

## Oedfa o Fawl am 6:00

Oedfa'r hwyr i holl eglwysi'r Ofalaeth yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan yng nghwmni

### Côr Synod, Mizoram

Cyfle arbennig i gyd-addoli yng nghwmni'r côr arbennig yma sy'n dod i Gymru am y tro cyntaf ers 1984.

## Cyhoeddiadau

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth Cyfle am ginio a sgwrs yn Festri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Bydd paned i ddilyn oedfa'r bore er budd Tearfund. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â'r oedfa yn Llanefydd a'r oedolion am 11.00. Bydd paned ar ôl yr oedfa/Ysgol Sul i gasglu arian at Tearfund – dewch a £1 efo chi!
- Rhag-hysbys Trip Ysgol Sul Llanefydd i Landudno – dydd Sadwrn, Gorffennaf 19eg. Mwy o fanylion yr wythnos nesaf.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.